

2018 Rhif 347 (Cy. 63)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Grove Park, Casnewydd i Gylchfan Cwmbrân, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018

Gwnaed 7 Mawrth 2018

Yn dod i rym 9 Mawrth 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Grove Park, Casnewydd i Gylchfan Cwmbrân, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 9 Mawrth 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 9 Mawrth 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

Cymhwyso

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y’i dangosir gan arwyddion traffig.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

7 Mawrth 2018

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Grove Park, Casnewydd hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Croes-y-mwyalch, Torfaen.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Croes-y-mwyalch hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Crown, Torfaen.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Crown hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Turnpike, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Turnpike hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Edlogan Way, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Edlogan Way hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Cwmbrân, Torfaen.